



Cofnodion o Gyfarfod Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar Nos Fercher 5^{ed} Ionawr 2005 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.30 pm

Presennol: Maer Mrs Ros Bellamy, Dirprwy Faer Colin Jenkins,
Cyng Pamela Steane Price, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Roy Davies,
Cyng Richard Wallace June Stait, clerch.

Ymddiheuriadau: Cyng Paul Faulkner, Cyng Fran Murphy; Cyng David Jones
Dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan y Cadeirydd a diolchodd i'r Maer a'r cynghorwyr a oedd yn bresennol am y daith ardderchog ar Ddydd Calan yn gwirio'r llwybrau o gwmpas Llandeilo.

6347/Ion/05 Ceisiadau cynllunio a wrthodwyd gan y Cyngor Sir :

Nodwyd fod y ceisiadau canlynol wedi'u gwrthod:

E06064 Arwydd hysbysu Gwesty'r Castell, Stryd Rhosmaen, Llandeilo
E06063 Gwrthodwyd hysbysebu ar adeilad rhestredig, Gwesty'r Castell, Stryd
Rhosmaen
E07725 Heulfan unllawr yn 6 Heol Caerfyrddin, Llandeilo

6348/Ion/05 Cais Cynllunio a ganiatawyd :

Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi caniatáu y ceisiadau canlynol :

E06604 Newid defnydd o adeiladau fferm i swyddfeydd/gweithdai a storfa a pharcio
atodol, Fferm Plas Dinefwr, Llandeilo

E06901 Newid defnydd o ran o anecs ystafell biliards yn arddangosfa i'r cyhoedd ac
ystafell de, adeiladu storfa a gosod lifft yn Nhŷ Drenewydd,
Parc Dinefwr, Llandeilo

E06902 Adeilad Rhestredig, Newid defnydd o ran o anecs ystafell biliards yn arddangosfa
i'r cyhoedd ac ystafell de, adeiladu storfa a gosod lifft yn Nhŷ Drenewydd,
Parc Dinefwr, Llandeilo

E07108 Adeilad Rhestredig, ail doi a newid hen weithdy'r saer yn
Fferm Plas Dinefwr

E07109 Adeilad rhestredig, adferiad o'r hen ysgubor i'w gyflwr gwreiddiol yn yr Hen
Ysgubor/ Old Granary, Fferm Plas Dinefwr

E07161 Darparu gatau i ddiogelu prif fynediad ger codiad George St yn Abbeyfield
House, Llandeilo

E07439 Newid tir y parc i faes parcio ychwanegol ym Mharc Dinefwr
E08047 Blwch diogel person post yn 4 New Road / maes parcio'r archfarchnad,
Llandeilo

6349/Ion/05 Coed

1. Torri coeden arfaethedig mewn ardal gadwraethol, D J E Thomas, 4 Stryd yr
Eglwys, Llandeilo – Ni chefnogwyd y cais yma oni bai i'r goeden fod yn beryglus neu'n afiach
2. Gorchymyn cadwraeth ar goed yn Llys Pencrug, Llandeilo, David Richards
Datblygwyr: gofynnwyd am gyfarfod ar safle i drafod hyn a gwybodaeth ehangach am
gynllunio.

6350/Ion/05 Golau

Un golau ar waelod Adeiladau'r Banc heb ei gynnu .

6351/Ion/05 Parc Adloniant

Derbyniwyd e-bost yn gofyn am adnewyddu y Parc Adloniant , y Cynghorwyr i gynnwys swm yng nghyllideb y flwyddyn nesaf i hyn, ac yn y cyfamser gwahodd Adran Barciau y Cyngor Sir a'r gymdeithas gymunedol i helpu.